Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol

Mesur Gweithgarwch a Pherfformiad – Canllawiau 2020-21

Mae'r canllawiau hyn yn cwmpasu'r canlynol:

Pennod / Cynnwys

1. Cyflwyniad 1
2. Mesur gweithgarwch a pherfformiad - ynglŷn â'r canllawiau hyn 2
   - 2.1 Beth yw perfformiad 'da'? 3
   - 2.2 Defnydd Llywodraeth Cymru o ddata 3
   - 2.3 Diogelu Data a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) 4
   - 2.4 Rhannu data 4
   - 2.5 Rhoi gwybod am berfformiad gofal cymdeithasol 4
3. Y diffiniadau a ddefnyddir yn y canllawiau hyn 6
4. Metrigau i fesur perfformiad a gweithgarwch 7
   - 4.1 Rhestr o fetrigau oedolion 8
   - 4.2 Rhestr o fetrigau plant 13
   - 4.3 Rhestr o fetrigau gofalwyr – Os yw'r gofalwr yn oedolyn 19
   - 4.4 Metrigau gofalwr ifanc 21
5. Casgliadau data seiliedig ar unigolion 23
6. Casgliadau data cyfanredol 24

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG40207 ISBN digidol 978-1-80038-348-7

Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol

Mesur Gweithgarwch a Pherfformiad - Canllawiau 2020-21

Cynulleidfa	Awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector, Gofal Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a rhanddeiliaid eraill
Trosolwg	Canllawiau i gefnogi'r cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r canllawiau yn canolbwyntio ar fesur gweithgarwch a pherfformiad awdurdodau lleol ac mae'n berthnasol o 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021.
Camau Gweithredu Gofynnol	Dylai pob awdurdod lleol gasglu, cyflwyno a defnyddio'r data a thystiolaeth a nodwyd yn y canllawiau hyn.
Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio Ymholiadau Pellach at: Y Gangen Lles a Gwella Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 4ydd Llawr y Gogledd Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ GwellaGwasanaethauCymdeithasol@llyw.cymru SocialServicesImprovement@gov.wales
Copïau ychwanegol	Gellir cyrchu'r ddogfen hon trwy wefan Llywodraeth Cymru yn: https:……
Dogfennau cysylltiedig	Ymgynghoriad ar fesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol https://llyw.cymru/mesur-perfformiad-gwasanaethau-cymdeithasol-cod-ymarfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol Gwasanaethau Cymdeithasol https://llyw.cymru/fframwaith-canlyniadau-cenedlaethol-gwasanaethau-cymdeithasol

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i awdurdodau lleol wrth iddynt arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol fel y nodwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r canllawiau ar gyfer mesur gweithgarwch a pherfformiad fel y disgrifiwyd yn y Fframwaith Perfformiad a Gwella a amlinellwyd yn y cod ymarfer ar gyfer perfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, a gyhoeddwyd dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[1].

Mae'n **rhaid** i'r awdurdodau lleol gydymffurfio â'r canllawiau yn y ddogfen hon yn unol â'r gofynion arnynt dan y cod ymarfer o ran perfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru a chodau ymarfer cysylltiol eraill.

Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol 2020/21 ac mae'n disodli holl fersiynau blaenorol y canllawiau technegol. Daw i rym ar 1 Ebrill 2020.

[1] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 145: http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/section/145

1. Cyflwyniad

Daw'r cod ymarfer newydd sy'n ymwneud â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru[2] i rym ym mis Ebrill 2020. Wedi'i gynhyrchu gan Lywodraeth Cymru mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid gofal cymdeithasol yng Nghymru, mae'n disgrifio uchelgais Llywodraeth Cymru i ddefnyddio amryw o ddulliau i gasglu, dadansoddi a deall data a thystiolaeth ar ddarpariaeth gofal a chymorth, a chymorth i ofalwyr yng Nghymru.

Mae'r cod ymarfer hwn yn disgrifio uchelgais i geisio newid go iawn a pharhaus i'r ffordd y mae gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn cael eu mesur a'u hadrodd a'r ffordd y mae'r wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio i lywio dyfodol gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Conglfaen y cod ymarfer newydd yw'r safonau ansawdd. Mae'r rhain yn cynnwys set o safonau sy'n uchelgeisiol eu natur ac wedi'u cynllunio i herio awdurdodau lleol i weithio tuag at welliannau yn gyson drwy arferion gorau ac arloesi. Maent wedi'u cynllunio i gyd-fynd â'r cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol[3] a chysylltu â saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[4], yn ogystal â mapio nod pedwarplyg y cynllun hirdymor 'Cymru Iachach'[5] a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r fframwaith perfformiad a gwella newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn cynnwys y cod ymarfer yn ogystal â chyfres o ddogfennau arweiniad sy'n uno nifer o elfennau allweddol mewn un pecyn sengl i awdurdodau lleol ei ddefnyddio i ddeall sut y mae gofal cymdeithasol yn cael ei ddarparu yn lleol a chenedlaethol a'r effaith y mae yn ei chael ar lesiant unigolion yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol ac Arolygiaeth Gofal Cymru i adolygu'r gofynion presennol o dan Adran 144a[6] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gyda'r bwriad o integreiddio Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol[7] (y cyfeirir ato fel arfer fel Adroddiad y Cyfarwyddwr) gyda'r fframwaith perfformiad a gwella newydd. Yna, Adroddiad y Cyfarwyddwr fydd y dull cyffredinol y bydd awdurdodau lleol yn ei ddefnyddio i arddangos eu perfformiad yn ystod y flwyddyn.

Mae'r fframwaith wedi'i gynllunio i gefnogi awdurdodau lleol a'u partneriaid i gasglu data a thystiolaeth o ansawdd uchel fel y gallant ddeall a gwella sut y maent yn darparu'r swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol o dan Ddeddf Gwasanaethau

---

[2] Cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru: [INSERT LINK]

[3] Cod Ymarfer ar gyfer Adolygu Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2019-04/190401-code-of-practice-lass-en.pdf

[4] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015: https://llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-canllawiau

[5] Cymru Iachach: https://llyw.cymru/cymru-iachach-cynllun-hirdymor-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol

[6] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 144: http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/section/144A

[7] Fel sy'n ofynnol dan o dan adran 144A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ogystal ag asesu'r effaith y mae'n ei chael ar lesiant a diogelu pobl sy'n byw yng Nghymru.

2. Mesur Gweithgarwch a Pherfformiad - ynglŷn â'r canllawiau hyn

Mae'r cod ymarfer sy'n ymwneud â mesur perfformiad a gwelliant gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn diffinio sut y mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol gasglu data a thystiolaeth a'i berthynas â darpariaeth ac effaith gofal cymdeithasol i bobl Cymru. Mae'n cynnwys tair rhan:

- Mesur gweithgarwch a pherfformiad
- Deall profiadau a chanlyniadau
- Defnyddio tystiolaeth i lywio gwelliant

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â'r gydran mesur gweithgarwch a pherfformiad

Mae mesur gweithgarwch a pherfformiad yn cynnwys:

- Fframwaith o fetrigau perfformiad y mae'n **rhaid** eu casglu a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn ar gyfer oedolion, plant a gofalwyr ar draws Cymru.

- Data dienw ar lefel yr unigolyn y mae'n **rhaid** eu casglu ar yr agweddau allweddol o ofal cymdeithasol a'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn

- Data cyfanredol ar agweddau penodol o ofal cymdeithasol y mae'n **rhaid** eu casglu a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn.

- Disgwyliad y dylai awdurdodau lleol gasglu eu data a'u tystiolaeth eu hunain er mwyn deall cyd-destun darpariaeth gofal cymdeithasol lleol yn well a'r hyn sydd bwysicaf iddynt ar yr adeg honno.

Mae'r data sy'n cael eu casglu yn y gydran hon o'r fframwaith yn rhoi cipolwg ar y ffactorau sy'n cyfrannu at ddeall gofal cymdeithasol yng Nghymru drwy ddarparu gwybodaeth a thystiolaeth ar weithgareddau awdurdodau lleol, pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a data ar y bobl y mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda nhw. Mae parhau i gynhyrchu data cyson ar draws Cymru yn galluogi Llywodraeth Cymru i asesu gofal cymdeithasol ar lefel genedlaethol yn ogystal â chaniatáu i awdurdodau lleol rannu data a gwybodaeth sy'n eu cynorthwyo yn eu taith welliant.

Mae data sy'n cael eu casglu yn y canllawiau hyn yn ased hanfodol bwysig wrth ddeall yr amgylchedd gofal cymdeithasol yn lleol ac yn genedlaethol. Mae'r data hefyd yn cael eu defnyddio i asesu faint o bobl y mae awdurdodau lleol yn darparu gofal a chymorth iddynt, y galw ar wasanaethau a swyddogaethau penodol ac fel dull y gellir ei ddefnyddio i awdurdodau lleol fonitro eu gallu i gyflawni gofynion o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Ni ddylid ystyried diben casglu data ar berfformiad a gweithgarwch heb ystyried cydrannau eraill yn y fframwaith perfformiad a gwella. Mae'r data sy'n cael eu casglu yma yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth gyffredinol a dylid eu defnyddio mewn cydweithrediad â mathau eraill o ddata a thystiolaeth i ddarparu darlun cyflawn a dealltwriaeth o ofal cymdeithasol, ar lefel awdurdod lleol a gan Lywodraeth Cymru ar lefel genedlaethol.

Mae'r fframwaith yn annog awdurdodau lleol i gael gwell cipolwg ar agweddau o ofal cymdeithasol ar lefel leol trwy ddatblygu dulliau echdynnu, dadansoddi ac adrodd ar ddata ymhellach, yn fwy na'r gofynion cenedlaethol, fel y gallant ddeall yn llawn beth yw natur ac effaith eu gwaith.

2.1 Beth yw perfformiad 'da'?

Mae'r dulliau a ragnodir yn y canllawiau hyn yn casglu ystod o wybodaeth ar gyfansymiau, y galw a'r llif, a gellir eu defnyddio i arddangos cydymffurfedd a gwelliant parhaus yn erbyn y gofynion yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'n bwysig deall efallai na fydd un darn unigol o ddata yn ddigon i benderfynu ar ansawdd cyffredinol gwasanaeth neu ymyrraeth. Mae'r metrigau wedi'u llunio i fynegi perfformiad, yn hytrach na rhoi asesiad cyfan gwbl.

Er mwyn rhoi asesiad cyffredinol a gwell o'u perfformiad, caiff awdurdodau lleol eu hannog i wneud gwaith pellach, gan ddefnyddio ystod o fecanweithiau ar gyfer casglu a dadansoddi data ar ansawdd ac effaith y gwaith y maent yn ei gyflawni. Gall hyn gynnwys archwiliad manylach o ystod o ddata gan gynnwys goruchwylio achosion ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau cymdeithasol.

2.2 Defnydd Llywodraeth Cymru o ddata

Y prif ddefnydd ar gyfer y data sy'n cael eu casglu ar lefel genedlaethol yw i roi sicrwydd i Weinidogion ac i gynorthwyo gyda'n dealltwriaeth o ddarpariaeth gofal cymdeithasol yng Nghymru er mwyn hysbysu a gwella polisi a deddfwriaeth gofal cymdeithasol.

Mae'r metrigau hefyd wedi'u cynllunio i ddarparu data sylfaenol cyson y gellir eu defnyddio i ddadansoddi gweithgarwch ac asesu cydymffurfedd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r data yn y metrigau yn darparu ffynhonnell wybodaeth sy'n cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ehangach, er enghraifft, gwerthusiadau polisi ffurfiol a

gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio data a thystiolaeth i sicrhau gwell gwybodaeth ar lefel genedlaethol er mwyn helpu i wella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Defnyddir y data hefyd fel mater o drefn gan Arolygiaeth Gofal Cymru i gynorthwyo wrth hysbysu eu hadolygiadau perfformiad unigol a thematig.

2.3 Diogelu Data a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Mae data a gesglir dan y fframwaith hwn yn cael eu llywodraethu gan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018.

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am y data personol y maent yn eu casglu, eu prosesu a'u cadw wrth ddarparu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer oedolion a phlant. Dylent hefyd roi gwybod i'r unigolion y maent yn gweithio â nhw am eu hawliau o ran cadw a phrosesu gwybodaeth bersonol. Fodd bynnag, pan fydd data yn cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru, mae hyn yn creu set ddata newydd a Llywodraeth Cymru yw'r rheolwr data. Bydd data bob amser yn cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio trefnau trosglwyddo data diogel (Afon).

Bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r data at ddibenion ystadegol ac ymchwil, ac yn cadw'r data cyhyd ag y bo'n ddefnyddiol. Gan fod data hanesyddol yn gallu bod yn ddefnyddiol iawn yn y cyd-destun hwn, mae'n debygol o'u cadw am nifer fawr o flynyddoedd.

2.4 Rhannu data

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data metrig a data cyfanredol yn unol â'u polisi ar gyfer cyhoeddi ystadegau swyddogol[8]. Dim ond data cyfanredol fydd yn cael eu cyhoeddi. Ni fydd unrhyw ddata ar lefel unigolyn yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

Bydd gan Arolygiaeth Gofal Cymru fynediad at y data fel rhan o'u swyddogaethau perfformiad ac adolygu a byddant yn defnyddio'r data i fonitro darpariaeth awdurdod lleol yn erbyn y safonau yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd gan Gofal Cymdeithasol Cymru fynediad at y data hefyd er mwyn eu cynorthwyo gyda'u swyddogaeth o ran arwain a chefnogi gwelliant yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Gall Llywodraeth Cymru hefyd rannu data gydag ymchwilwyr ac asiantaethau nad ydynt yn rhan o'r llywodraeth. Mae'r holl ddata a rennir gan Lywodraeth Cymru yn

[8] Llywodraeth Cymru – Ynglŷn ag ystadegau ac ymchwil: https://llyw.cymru/ynghylch-ystadegau-ac-ymchwil

cael eu rhannu at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unig, ac yn cael eu craffu gan Brif Ystadegydd Llywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn cael eu rhannu yn deg ac yn gyfreithlon.

2.5 Rhoi gwybod am berfformiad gofal cymdeithasol

Wrth ddatblygu'r fframwaith perfformiad a gwella, archwiliodd Llywodraeth Cymru lawer iawn o ymchwil ar fanteision ac anfanteision amryw o wahanol ddulliau o roi gwybod am berfformiad gofal cymdeithasol ar lefel genedlaethol. Dangoswyd bod nifer o ganlyniadau negyddol i gyhoeddi perfformiad mewn dull safleoedd fel tabl cynghrair o berfformiad, ac y gall hyn gael effaith niweidiol ar sut y mae sefydliadau yn ymateb i'r angen am welliant. O ganlyniad, ni fydd awdurdodau lleol bellach yn cael eu gosod mewn safleoedd fesul chwartel.

Er ein bod yn parhau i hyrwyddo rhannu data a pherfformiad ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru, mae'n bwysig cofio bod penderfynyddion ehangach yn dylanwadu ar berfformiad ac y dylid ystyried y ffactorau hyn wrth wneud cymhariaeth rhwng awdurdodau lleol.

3. Y diffiniadau a ddefnyddir yn y canllawiau hyn

Mae'r canllawiau technegol ar gyfer mesur gweithgarwch a pherfformiad yn defnyddio iaith a therminoleg benodol i ddisgrifio digwyddiadau ac unigolion sy'n deillio o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r casgliadau data sydd wedi'u cynnwys yn y canllawiau hyn wedi'u rhannu yn ôl categori oedolion, plant a gofalwyr. Diffinnir y rhain yn y Ddeddf fel:

- ystyr “oedolyn” yw unigolyn sy’n 18 oed neu hŷn;
- ystyr “plentyn” yw unigolyn dan 18 oed*;
- ystyr “gofalwr” yw unigolyn sy’n darparu neu’n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl.

**mae nifer o fetrigau ar gyfer plant yn cynnwys plant sydd wedi bod mewn gofal ac sydd yn awr yn oedolion.*

Mae diffiniad technegol manwl yn cyd-fynd â phob un o'r metrigau yn y fframwaith. Mae'r rhain wedi'u datblygu gan Lywodraeth Cymru ac arbenigwyr data a gwybodaeth awdurdodau lleol drwy'r Is-grŵp Adrodd Cenedlaethol.

Mae'r diffiniadau technegol hyn, sydd wedi'u cynllunio i gael eu defnyddio gan arbenigwyr data a gwybodaeth ym mhob awdurdod lleol wedi'u datblygu i roi dealltwriaeth gyson ar y cyd o baramedrau casgliadau data ar gyfer pob metrig (*beth* sy'n cael ei gyfrif, a *sut*) i sicrhau bod yr un data yn cael eu defnyddio ar draws

Cymru. Mae'r diffiniadau technegol hyn wedi'u cynnwys yng **Nghatalog Diffiniadau Technegol y Metrigau**[9] sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae'r derminoleg a ddefnyddir yn niffiniad technegol pob metrig yn gyson â'r iaith a ddefnyddir yn y codau ymarfer[10] ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae cyfeiriadau at adrannau perthnasol y codau ymarfer wedi'u cynnwys yn y diffiniad technegol fel sy'n briodol.

4. Metrigau i fesur perfformiad a gweithgarwch

Mae'r metrigau a ddatblygwyd yn y fframwaith perfformiad a gwella newydd yn gyfrifiadau syml, unochrog o weithgarwch sy'n casglu data yn ymwneud â chyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Gellir cyfuno metrigau penodol i greu mesurau sy'n gallu mesur pa mor dda oedd perfformiad awdurdod lleol mewn perthynas â'r gofynion yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r metrigau wedi'u categoreiddio gan y grwpiau canlynol:

- Oedolion
- Plant
- Gofalwyr (oedolion a gofalwyr ifanc)

Mae'r metrigau sydd wedi'u cynnwys yn y fframwaith yn rhoi trosolwg o agweddau mwyaf arwyddocaol yr holl weithgarwch a ddarperir gan awdurdodau lleol mewn perthynas â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Maent wedi'u datblygu gan Lywodraeth Cymru mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a'r sector gofal cymdeithasol ehangach yng Nghymru.

[9] Catalog diffiniadau technegol y metrigau – DOLEN

[10] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Codau Ymarfer: https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/codau-ymarfer

4.1 Rhestr o Fetrigau – Oedolion

1. Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy (Atgyfeiriadau)	
Cyfeirnod	**Metrig**
AD/001	Nifer o gysylltiadau ar gyfer oedolion a gafodd y gwasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn.
AD/002	O'r rheini: y nifer lle darparwyd cyngor a chynhorthwy
AD/003a AD/003b AD/003c AD/003d AD/003e AD/003f AD/003g AD/003h AD/003i AD/003j AD/003k	Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd gan wasanaethau statudol i oedolion yn ystod y flwyddyn oddi wrth Yr unigolyn neu aelod o'r teulu Ffrind neu gymydog Iechyd Addysg Yr Heddlu Y Gwasanaeth Prawf Tai Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar / Atal (Cam i Fyny) Sefydliad trydydd sector Mewnol (Gweithiwr Cymdeithasol, tîm arall) Arall
2. Asesiadau	
Cyfeirnod	**Metrig**
AD/004	Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn.
AD/005a AD/005b AD/005c	O'r rheini, y cyfanswm lle: Roedd anghenion ond yn gallu cael eu diwallu gyda chynllun gofal a chymorth Roedd anghenion ond yn gallu cael eu diwallu trwy ddulliau eraill Nad oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu
	Nifer yr asesiadau a gwblhawyd *(AD/004)* yn ystod y flwyddyn lle:

AD/006a AD/006b AD/006c	Roedd tystiolaeth o Gynnig Rhagweithiol y Gymraeg Derbyniwyd Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg Cynhaliwyd yr asesiad gan ddefnyddio'r iaith a ffefrir
AD/007	Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd yn yr ystad ddiogeledd
AD/008	Nifer yr asesiadau newydd y gofynnodd yr oedolyn neu'r teulu amdanynt yn ystod y flwyddyn lle'r oedd asesiad blaenorol wedi'i gwblhau yn ystod y 12 mis blaenorol.
  AD/009a AD/009b AD/009c	O'r rheini, y nifer lle: Roedd anghenion ond yn gallu cael eu diwallu gyda chynllun gofal a chymorth Roedd anghenion ond yn gallu cael eu diwallu trwy ddulliau eraill Nad oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu
3. Ymyrraeth Gynnar ac Atal	
Cyfeirnod	**Metrig**
AD/010	Cyfanswm y pecynnau ail-alluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn
  AD/011a AD/011b AD/011c	O'r rheini, y nifer lle: Leihawyd yr angen am gymorth Cynhaliwyd yr angen am yr un lefel o gymorth Lliniarwyd yr angen am gymorth
4. Cynlluniau	
Cyfeirnod	**Metrig**
AD/012	Nifer yr oedolion â chynlluniau gofal a chymorth ar 31 Mawrth
AD/013	Cyfanswm yr oedolion â chynllun gofal a chymorth y mae eu hanghenion yn cael eu bodloni gyda Thaliad Uniongyrchol ar 31 Mawrth
5. Darparu Gwasanaethau	
    AD/014a AD/014b	Ar gyfer gwasanaethau a gychwynnwyd yn ystod y flwyddyn, cyfanswm y diwrnodau y mae'n rhaid i oedolion aros rhwng cwblhau'r asesiad a dechrau derbyn gwasanaeth a nodwyd yn eu cynllun gofal a chymorth, lle mae'r gwasanaeth hwnnw yn: Gofal Preswyl Gofal Cartref

AD/014c	Gofal Dydd
	Cyfanswm y gwasanaethau i oedolion a gychwynnwyd yn ystod y flwyddyn lle mae'r gwasanaeth hwnnw yn:
AD/015a	Gofal Preswyl
AD/015b	Gofal Cartref
AD/015c	Gofal Dydd
AD/015d	Gofal Seibiant
6. Adolygiadau	
Cyfeirnod	**Metrig**
AD/016	Nifer y cynlluniau gofal a chymorth i oedolion a oedd i'w hadolygu yn ystod y flwyddyn
AD/017	O'r rheini, y nifer y cwblhawyd eu hadolygiadau o fewn yr amserlenni statudol
AD/018	Nifer yr oedolion a gefnogir gyda thaliad uniongyrchol a oedd i'w hadolygu yn ystod y flwyddyn
AD/019	O'r rheini, y nifer a gwblhawyd o fewn amserlenni statudol
7. Diogelu	
Cyfeirnod	**Metrig**
AD/020	Cyfanswm yr adroddiadau ynghylch oedolyn y credir ei fod yn wynebu risg a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn
	O'r rheini, y nifer a dderbyniwyd gan:
AD/021a	Yr unigolyn ei hun
AD/021b	Priod neu aelod o'r teulu
AD/021c	Ffrind neu gymydog
AD/021d	Iechyd
AD/021e	Yr Heddlu
AD/021f	Y Gwasanaeth Prawf
AD/021g	Tai
AD/021h	Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar / Atal
AD/021i	Sefydliad trydydd sector
AD/021j	Mewnol (Gweithiwr Cymdeithasol, tîm arall)
AD/021k	Arall
AD/022	Cyfanswm yr adroddiadau am oedolyn y credir ei fod yn wynebu risg lle mae angen gwneud ymholiadau
AD/023	Cyfanswm yr ymholiadau a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod i dderbyn yr adroddiad honedig o gamdriniaeth

	Cyfanswm yr ymholiadau lle honnwyd bod camdriniaeth o dan y prif gategori:
AD/024a	Esgeulustod
AD/024b	Camdriniaeth gorfforol
AD/024c	Trais rhywiol
AD/024d	Camdriniaeth emosiynol neu seicolegol
AD/024e	Camdriniaeth ariannol
	O'r ymholiadau hynny, y nifer lle'r oedd y cyflawnwr honedig yn:
AD/025a	Blentyn neu bartner priod
AD/025b	Aelod o'r teulu heblaw plentyn neu bartner priod
AD/025c	Gweithiwr proffesiynol
AD/025d	Ffrind neu gymydog
AD/025e	Unigolyn arall
AD/025f	Anhysbys
AD/026	Cyfanswm yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad bod angen cymryd camau gweithredu.
	O'r rheini a aeth ymlaen:
AD/027	Y cyfanswm lle gwrthododd yr unigolyn sydd mewn perygl gymryd rhan yn y camau gweithredu.
	Cyfanswm yr honiadau o gamdriniaeth a gadarnhawyd ar 31 Mawrth o dan y categorïau canlynol:
AD/028a	Esgeulustod
AD/028b	Camdriniaeth gorfforol
AD/028c	Trais rhywiol
AD/028d	Camdriniaeth emosiynol neu seicolegol
AD/028e	Camdriniaeth ariannol

8. Codi Tâl	
Cyfeirnod	**Metrig**
AD/029	Nifer yr oedolion a dalodd y tâl wythnosol uchaf tuag at gost gofal neu gymorth ar gyfer gofalwyr yn ystod y flwyddyn
AD/030	Nifer yr oedolion a dalodd y gyfradd safonol am ofal a chymorth neu gymorth ar gyfer gofalwyr yn ystod y flwyddyn
AD/031	Nifer yr oedolion y codwyd tâl arnynt am ofal a chymorth neu gymorth ar gyfer gofalwyr yn ystod y flwyddyn
9. Eiriolaeth	
Cyfeirnod	**Metrig**
AD/032	Cyfanswm yr oedolion yn ystod y flwyddyn lle nodwyd yr angen am eiriolwr proffesiynol annibynnol
AD/033	O'r rheini: Y cyfanswm lle darparwyd cyngor Eiriolwr Annibynnol

4.2 Rhestr o Fetrigau – Plant a Phobl Ifanc

1. Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy (Atgyfeiriadau)	
Cyfeirnod	**Metrig**
CH/001	Nifer y cysylltiadau ar gyfer plant a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn.
CH/002	O'r rheini a nodwyd: y nifer lle darparwyd cyngor a chynhorthwy
CH/003	Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd gan y gwasanaethau cymdeithasol statudol i blant yn ystod y flwyddyn lle gwnaed penderfyniad erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf
CH/004a CH/004b CH/004c CH/004d CH/004e CH/004f CH/004g CH/004h CH/004i CH/004j CH/004k	Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd gan y gwasanaethau cymdeithasol statudol i blant yn ystod y flwyddyn oddi wrth: Yr unigolyn neu aelod o'r teulu Ffrind neu gymydog Iechyd Addysg Yr Heddlu Y Gwasanaeth Prawf Tai Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar / Atal (Cam i Fyny) Sefydliad trydydd sector Mewnol (Gweithiwr Cymdeithasol, tîm arall) Arall
CH/005a CH/005b	O'r cysylltiadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn: Y nifer lle'r oedd cosb gorfforol gan riant neu ofalwr yn ffactor Y nifer lle'r oedd cosb gorfforol gan riant neu ofalwr **yr unig** ffactor
2. Asesiadau	
Cyfeirnod	**Metrig**

CH/006	Cyfanswm yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn
	Cyfanswm yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn lle:
CH/007a	Roedd anghenion ond yn gallu cael eu diwallu gyda chynllun gofal a chymorth
CH/007b	Roedd anghenion yn gallu cael eu diwallu trwy ddulliau eraill
CH/007c	Nad oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu
CH/008	Cyfanswm yr asesiadau cynhwysfawr a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle mae tystiolaeth bod y plentyn wedi'i weld
	Nifer yr asesiadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle:
CH/009a	Roedd tystiolaeth o Gynnig Rhagweithiol y Gymraeg
CH/009b	Derbyniwyd Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg
CH/009c	Cynhaliwyd yr asesiad gan ddefnyddio'r iaith a ffefrir
CH/010	Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd yn yr ystad ddiogeledd
	O'r asesiadau hynny a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn:
CH/011a	Y nifer lle'r oedd cosb gorfforol gan riant neu ofalwr yn ffactor
CH/011b	Y nifer lle'r oedd cosb gorfforol gan riant neu ofalwr **yr unig** ffactor
CH/012	Nifer yr asesiadau a gwblhawyd o fewn amserlenni statudol
CH/013	Nifer yr asesiadau newydd y gofynnodd y plentyn neu'r teulu amdanynt yn ystod y flwyddyn lle'r oedd asesiad blaenorol wedi'i gwblhau yn ystod y 12 mis blaenorol
	O'r rheini, a nodwyd uchod, y nifer lle:
CH/014a	Roedd anghenion ond yn gallu cael eu diwallu gyda chynllun gofal a chymorth
CH/014b	Roedd anghenion yn gallu cael eu diwallu trwy ddulliau eraill
CH/014c	Nad oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu
3. Cynlluniau	
Cyfeirnod	**Metrig**

CH/015	Cyfanswm y plant â chynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth
CH/016	Cyfanswm y plant â chynllun gofal a chymorth y cafodd eu hanghenion eu bodloni gyda Thaliad Uniongyrchol ar 31 Mawrth
4. Adolygiadau	
Cyfeirnod	**Metrig**
CH/017	Nifer y cynlluniau gofal a chymorth neu gynlluniau cymorth a oedd i'w hadolygu yn ystod y flwyddyn
	Nifer y cynlluniau gofal a chymorth a oedd i'w hadolygu yn ystod y flwyddyn a oedd yn:
CH/018a	Adolygiadau amddiffyn plant
CH/018b	Adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal *(gan gynnwys adolygiadau o gynlluniau llwybr ac adolygiadau cyn mabwysiadu)*
CH/018c	Adolygiadau o blant sydd angen gofal a chymorth
CH/018d	Adolygiadau o gynlluniau cymorth (Gorchmynion Gwarchodaeth Arbennig, taliadau uniongyrchol ac ati.)
	Nifer yr adolygiadau a gwblhawyd o fewn amserlenni statudol a oedd yn:
CH/019a	Adolygiadau amddiffyn plant
CH/019b	Adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal *(gan gynnwys adolygiadau o gynlluniau llwybr ac adolygiadau cyn mabwysiadu)*
CH/019c	Adolygiadau o blant sydd angen gofal a chymorth
CH/019d	Adolygiadau o gynlluniau cymorth *(Gorchmynion Gwarchodaeth Arbennig, taliadau uniongyrchol ac ati.)*
	a
CH/019e	Chyfanswm yr adolygiadau a oedd i'w cynnal yn ystod y flwyddyn na chawsant eu cwblhau yn ystod y flwyddyn
5. Diogelu	
Reference	**Metrig**
CH/020	Cyfanswm y Cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn
CH/021	Cyfanswm y Trafodaethau Strategaeth a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a aeth ymlaen i Ymchwiliad Adran 47
CH/022	Cyfanswm yr Ymchwiliadau Adran 47 a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a aeth ymlaen i Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol

	Cyfanswm y plant a roddwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn o dan y categori:
CH/023a CH/023b CH/023c CH/023d CH/023e CH/023f CH/023g CH/023h CH/023i	Esgeulustod Camdriniaeth gorfforol Camdriniaeth rywiol Camdriniaeth emosiynol Camdriniaeth ariannol Esgeulustod a chamdriniaeth gorfforol Camdriniaeth gorfforol a rhywiol Esgeulustod a chamdriniaeth rywiol Esgeulustod a chamdriniaeth gorfforol a rhywiol
CH/023j	Ac Y nifer o blant yn ystod y flwyddyn na ystyrir sy'n wynebu risg o niwed sylweddol mewn cynhadledd amddiffyn plant ond efallai sydd angen Gofal a Chymorth
CH/023k	Ac Y nifer o blant yn ystod y flwyddyn na ystyrir sy'n wynebu risg o niwed sylweddol mewn cynhadledd amddiffyn plant ac na nodwyd unrhyw anghenion cymwys ychwanegol
CH/024	O'r plant hynny a roddwyd ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn, y nifer a oedd wedi'u cofrestru'n flaenorol o dan unrhyw gategori, unrhyw bryd yn ystod y 12 mis blaenorol
CH/025	Cyfanswm y cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol a gynhaliwyd o fewn amserlenni statudol
CH/026	Cyfanswm y plant ar y gofrestr amddiffyn plant ar 31 Mawrth
CH/027	Cyfanswm y cyfarfodydd grŵp craidd cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn
CH/028	Cyfanswm y cyfarfodydd grŵp craidd cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd o fewn amserlenni statudol
CH/029	Cyfanswm yr ymweliadau â phlant a roddwyd ar y gofrestr amddiffyn plant a oedd i'w cynnal yn ystod y flwyddyn
CH/030	Cyfanswm yr ymweliadau â phlant a roddwyd ar y gofrestr amddiffyn plant a oedd i'w cynnal yn ystod y flwyddyn ac a gwblhawyd o fewn amserlenni cymeradwy

CH/031	Cyfanswm yr achosion o blant sy'n mynd ar goll yn ystod y flwyddyn
CH/032	O'r rheini, cyfanswm y plant y mae'r achosion hyn yn ymwneud â nhw
CH/033	Cyfanswm yr adroddiadau o gam-fanteisio ar blant a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn
	Cyfanswm yr adroddiadau o gam-fanteisio ar blant a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn a oedd yn nodi:
CH/034a	Camfanteisio'n rhywiol ar blant
CH/034b	Camfanteisio'n droseddol ar blant
CH/034c	Masnachu pobl
CH/035	Cyfanswm y diwrnodau ar y gofrestr amddiffyn plant ar gyfer plant a dynnwyd oddi ar y gofrestr yn ystod y flwyddyn
CH/036	Cyfanswm y plant a dynnwyd oddi ar y gofrestr amddiffyn plant (dadgofrestru) yn ystod y flwyddyn
6. Plant sy'n Derbyn Gofal	
Cyfeirnod	**Metrig**
CH/037a	Nifer y plant a ddechreuodd dderbyn gofal yn ystod y flwyddyn
CH/037b	Nifer yr enghreifftiau newydd o blant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn
CH/037c	Nifer yr enghreifftiau newydd o blant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn, lle roedd y cyfanswm amser mewn gofal yn 10 diwrnod gwaith neu fwy.
CH/038	Nifer y cynlluniau gofal a chymorth rhan 6 a gwblhawyd o fewn 10 diwrnod gwaith i ddechrau derbyn gofal
CH/039	Nifer y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth
CH/040	Nifer y plant sy'n derbyn (S76) gwyliau byr ar 31 Mawrth
CH/041	Nifer yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal a oedd i'w cynnal yn ystod y flwyddyn
CH/042	Nifer yr ymweliadau â phlant sy'n derbyn gofal a gwblhawyd o fewn amserlenni statudol
CH/043	Cyfanswm y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn
CH/044	Cyfanswm y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi newid ysgol o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn (ac eithrio trefniadau pontio, symudiadau sy'n gysylltiedig â mabwysiadu neu symud yn ôl adref)
CH/045	Cyfanswm y plant sy'n derbyn gofal a ddychwelodd adref yn ystod y flwyddyn
CH/046	Cyfanswm y plant sy'n derbyn gofal nad ydynt yn cael eu lleoli gyda'u rhieni, eu teulu neu ffrindiau
CH/047	Cyfanswm y plant sy'n derbyn gofal sy'n cael eu lleoli yng Nghymru, ond y tu allan i'r awdurdod lleol â chyfrifoldeb
CH/048	Cyfanswm y plant sy'n derbyn gofal sy'n cael eu lleoli y tu allan i Gymru
CH/049	Cyfanswm y Cynlluniau Llwybr cychwynnol sydd i'w cwblhau yn ystod y flwyddyn

CH/050	Nifer y Cynlluniau Llwybr cychwynnol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn o fewn yr amserlenni statudol
CH/051	Cyfanswm y bobl ifanc a oedd angen cynghorydd personol yn ystod y flwyddyn
CH/052	Cyfanswm y rhai sy'n gadael gofal sy'n dioddef digartrefedd yn ystod y flwyddyn (fel y'i diffinnir gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014) o fewn 12 mis i adael gofal
	Cyfanswm y bobl ifanc â phrofiad o ofal yn y categorïau canlynol ar 31 Mawrth:
CH/053a	categori 1
CH/053b	categori 2
CH/053c	categori 4
	O'r rheini, y cyfanswm sydd wedi cwblhau o leiaf 3 mis yn olynol o gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn
CH/054a	y 12 mis ers gadael gofal
CH/054b	y 13-24 mis ers gadael gofal
CH/055	Nifer y bobl ifanc sy'n gadael gofal sy'n symud i mewn i leoliad 'Pan Fydda i'n Barod'
7. Eiriolaeth	
Cyfeirnod	**Metrig**
CH/056	Cyfanswm nifer y plant yn ystod y flwyddyn a gafodd y Cynnig Rhagweithiol o eiriolaeth
	O'r rheini:
CH/057	Cyfanswm y nifer y darparwyd cyngor eiriolwr annibynnol iddynt

4.3 Rhestr o Fetrigau – Gofalwyr (yma mae'r gofalwr yn oedolyn)

1. Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy (Atgyfeiriadau)	
Cyfeirnod	**Metrig**
CA/001	Cyfanswm y cysylltiadau â'r gwasanaethau cymdeithasol statudol a gafwyd gan ofalwyr sy'n oedolion neu weithwyr proffesiynol sy'n cysylltu â'r gwasanaeth ar eu rhan yn ystod y flwyddyn
	O'r rheini:
CA/002	y nifer lle darparwyd cyngor a chynhorthwy
	Nifer y cysylltiadau gan ofalwyr sy'n oedolion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn *(CA/001)* oddi wrth
CA/003a	Yr unigolyn neu aelod o'r teulu
CA/003b	Ffrind neu gymydog
CA/003c	Iechyd
CA/003d	Addysg
CA/003e	Yr Heddlu
CA/003f	Y Gwasanaeth Prawf
CA/003g	Tai
CA/003h	Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar / Atal (Cam i Fyny)
CA/003i	Sefydliad trydydd sector
CA/003j	Mewnol (Gweithiwr Cymdeithasol, tîm arall)
CA/003k	Arall
2. Asesiadau - Yr holl asesiadau a gynhaliwyd ar gyfer gofalwyr yn ystod y flwyddyn	
Cyfeirnod	**Metrig**
CA/004	Cyfanswm yr asesiadau o anghenion gofalwyr a gynhaliwyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn
	O'r rheini, y cyfanswm lle:
CA/005a	Roedd anghenion yn gallu cael eu diwallu gyda chynllun cymorth y gofalwr
CA/005b	Roedd anghenion ond yn gallu cael eu diwallu gyda chynllun gofal a chymorth
CA/005c	Roedd anghenion yn gallu cael eu diwallu trwy ddulliau eraill
CA/005d	Nad oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu

CA/006	Nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr a wrthodwyd i oedolion yn ystod y flwyddyn
	Nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr a gwblhawyd *(CA/007)* yn ystod y flwyddyn lle:
CA/007a	Roedd tystiolaeth o Gynnig Rhagweithiol y Gymraeg
CA/007b	Derbyniwyd Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg
CA/007c	Cynhaliwyd yr asesiad gan ddefnyddio'r iaith a ffefrir gan y gofalwr
3. Cynlluniau	
CA/008a	Nifer y gofalwyr sy'n oedolion â chynllun cymorth ar 31 Mawrth
CA/008b	Nifer yr oedolion â chynlluniau gofal a chymorth ac sydd â chyfrifoldebau gofalu hefyd
4. Adolygiadau	
CA/009	Nifer y cynlluniau cymorth gofalwyr sy'n oedolion a oedd i'w hadolygu yn ystod y flwyddyn
CA/010	O'r rheini, y nifer y cwblhawyd eu hadolygiadau o fewn amserlenni statudol

4.4 Rhestr o Fetrigau – Gofalwyr Ifanc

1. Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy (Atgyfeiriadau)	
Cyfeirnod	**Metrig**
CA/011	Cyfanswm y cysylltiadau â'r gwasanaethau cymdeithasol statudol gan ofalwyr ifanc neu weithwyr proffesiynol sy'n cysylltu â'r gwasanaeth ar eu rhan yn ystod y flwyddyn
	O'r rheini:
CA/012	y nifer lle darparwyd cyngor a chynhorthwy
	Nifer y cysylltiadau gan ofalwyr ifanc a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn *(CA/010)* oddi wrth
CA/013a	Yr unigolyn neu aelod o'r teulu
CA/013b	Ffrind neu gymydog
CA/013c	Iechyd
CA/013d	Addysg
CA/013e	Yr Heddlu
CA/013f	Y Gwasanaeth Prawf
CA/013g	Tai
CA/013h	Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar / Atal (Cam i Fyny)
CA/013i	Sefydliad trydydd sector
CA/013j	Mewnol (Gweithiwr Cymdeithasol, tîm arall)
CA/013k	Arall
2. Asesiadau - Yr holl asesiadau a gynhaliwyd ar gyfer Gofalwyr yn ystod y flwyddyn	
Cyfeirnod	**Metrig**
CA/014	Cyfanswm nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr ifanc a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn
	O'r rheini, y cyfanswm lle:
CA/015a	Gellir diwallu anghenion gan ddefnyddio cynllun cymorth gofalwr ifanc
CA/015b	Roedd anghenion ond yn gallu cael eu diwallu gyda chynllun gofal a chymorth
CA/015c	Roedd anghenion yn gallu cael eu diwallu trwy ddulliau eraill
CA/015d	Nad oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu
	Nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr ifanc a gwblhawyd *(CA/031)* yn ystod y flwyddyn lle:

CA/016a CA/016b CA/016c	Roedd tystiolaeth o Gynnig Rhagweithiol y Gymraeg Derbyniwyd Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg Cynhaliwyd yr asesiad gan ddefnyddio'r iaith a ffefrir gan y gofalwr
3. Cynlluniau	
CA/017a CA/017b	Nifer y gofalwyr ifanc â chynllun cymorth ar 31 Mawrth Y nifer o blant neu bobl ifanc sydd â chynllun gofal a chymorth ac sydd â chyfrifoldebau gofalu hefyd
4. Adolygiadau	
CA/018	Nifer y cynlluniau cymorth gofalwyr ifanc a oedd i'w hadolygu yn ystod y flwyddyn
CA/019	O'r rheini, y nifer y cwblhawyd eu hadolygiadau o fewn amserlenni statudol

5. Casgliadau data seiliedig ar unigolion dienw

Mae'r gydran ar gyfer mesur gweithgarwch a pherfformiad hefyd yn cynnwys data y mae'n **rhaid** eu casglu ar lefel yr unigolyn. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal[11]
- Cyfrifiad plant sydd angen gofal a chymorth[12]

Bydd cyfrifiad oedolion sydd angen gofal a chymorth yn cael ei ddatblygu fel rhan o gam dau y fframwaith perfformiad a gwella (gweler Atodiad 1).

Ar lefel leol, gellir defnyddio data seiliedig ar yr unigolyn i gael gwell cipolwg ar agweddau penodol y gwaith gan y gellir dadansoddi'r data yn ôl amryw o wahanol briodoleddau gan alluogi dealltwriaeth well o ddarpariaeth gofal a chymorth.

Mae data a gesglir ar lefel yr unigolyn yn fwy gwerthfawr gan y gellir eu dadansoddi ymhellach a'u cysylltu â setiau data eraill - gan gynnwys cysylltu data ar draws ffiniau sefydliadol, a galluogi cynnal astudiaethau mwy cymhleth. Mae canllawiau technegol ychwanegol ar gael ar gyfer pob data seiliedig ar yr unigolyn ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae dolenni cyswllt i'r rhain yn y troednodyn ar waelod y dudalen hon.

6. Gweithgarwch mesur data cyfanredol

Mae cydran mesur gweithgarwch a pherfformiad y fframwaith hefyd yn cynnwys ystod o ddata cyfanredol y mae'n **rhaid** eu casglu ar gyfer:

- Diogelu Oedolion
- Diogelu Plant (Cofrestr Amddiffyn Plant)
- Cofrestri Anabledd*

*2020/21 fydd blwyddyn gasglu derfynol y data. Bydd data o'r casgliadau etifeddol hyn wedi'u hintegreiddio yn llawn yn y casgliadau cyfrifiad seiliedig ar yr unigolyn a fydd yn cael eu cyflwyno yng ngham dau y fframwaith perfformiad a gwella.

Bydd data sy'n cael eu casglu yn y casgliadau cyfanredol yn cael eu defnyddio i boblogi metrigau lle bynnag y bo modd, gan osgoi'r angen i ddyblygu casglu'r data hyn.

[11] Cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal - canllawiau: INSERT LINK
[12] Cyfrifiad plant sy'n cael gofal a chymorth: - canllawiau: INSERT LINK

ATODIAD 1 - Gofynion data

Mae'r fframwaith perfformiad a gwella yn cael ei ddarparu fesul cam i roi amser i awdurdodau lleol weithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol i gyflawni'r gofynion yn llwyddiannus.

Mae'r casgliadau data yn dilyn cwblhau Cam Un (Ebrill 2020) fel a ganlyn:

Cam Un

1. Metrigau Perfformiad Cenedlaethol

2. Data Perfformiad Cyfanredol
    a. Diogelu Oedolion
    b. Diogelu Plant
    c. Cofrestri Anabledd

3. Data Gweithgarwch Seiliedig ar Unigolion
    a. Cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal
    b. Cyfrifiad plant sydd angen gofal a chymorth

Bydd cam dau y gwaith hwn yn cynnwys rhai newidiadau ychwanegol i'r gydran Mesur Gweithgarwch a Pherfformiad.

Gofynion Cam Dau

1. Metrigau Perfformiad Cenedlaethol

2. Data Perfformiad Cyfanredol
    a. Diogelu Oedolion
    b. Diogelu Plant

3. Data Gweithgarwch Seiliedig ar Unigolion
    a. Cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal
    b. Cyfrifiad plant sydd angen gofal a chymorth
    c. Cyfrifiad oedolion sy'n cael gofal a chymorth